## TASG 2

**(Heriol, sbardun 1)**

**Ateb Tasg 1**
Beth yw'r cysylltiad rhwng y lluniau?

"O Gymru" yw'r ateb.

Mae gan y pethau sydd yn y lluniau gysylltiad agos â Chymru ac maen nhw'n enwog ar draws y byd – ym mhedwar ban y byd.

**Côr y Cewri:** Mae arbenigwyr yn credu bod y cerrig hyn yn dod o Sir Benfro yn wreiddiol.

**Airbus:** Mae adenydd awyrennau Airbus yn cael eu gwneud ym Mrychdyn, Gogledd Cymru. Yna, maen nhw'n cael eu cludo i Dde Ffrainc i'w gosod ar yr awyrennau.

**Y bwthyn bach:** Dyma'r bwthyn sydd i'w weld yn y ffilm, *Harry Potter and the Deathly Hallows*. Cafodd ei adeiladu yn Sir Benfro ar gyfer y ffilm.

**Y siwt fach las smart:** Mae'r cliw yn enw'r cynllunydd – Julien Macdonald. Mae e'n dod o Dde Cymru ac mae ei enw a'i ddillad yn enwog ar draws y byd.